



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/4091/20

At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru

Copi i:

Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Gydweithwyr

Heddiw rwy'n cyhoeddi manylion y Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2021-22 (y Setliad) ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol Cymru drwy Ddatganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet. Mae hwn wedi'i atodi er gwybodaeth ichi.

Fel y nodwyd yn y gyllideb ddrafft ddoe, blaenoriaethau ariannu Llywodraeth Cymru o hyd yw gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol. Mae fy nghyhoeddiad yn amlinellu fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd llywodraeth leol ar gyfer 2021-22 ar £4.651 biliwn. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn 2021-22 yn cynyddu 3.8 y cant, ar sail tebyg, o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Er fy mod yn gwybod bod llywodraeth leol wedi bod yn wynebu pwysau sylweddol, yn enwedig yn deillio o'r pandemig COVID-19, rwy'n gobeithio y bydd y cynnydd hwn, sy'n adeiladu ar setliad sydd wedi gwella'n sylweddol yn 2020-21, yn eich galluogi i barhau i gefnogi a darparu gwasanaethau lleol hanfodol a gwerthfawr. Wrth bennu'r setliad cyffredinol ar y lefel hon mae'r Llywodraeth wedi ymateb i effaith negyddol y pandemig ar gasglu ardrethi annomestig. Mae'r cynnydd sylfaenol o £176m yn y setliad sylfaenol yn adlewyrchu cynnydd mwy yn y Grant Cynnal Refeniw i wneud iawn am y gostyngiad mewn ardrethi annomestig. Mae hefyd yn cyfrif am effaith rhewi'r lluosydd ardrethi annomestig. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau i'r setliad, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £172 miliwn yng nghyllideb y setliad, o'i gymharu â 2020-21.

Esboniodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn glir yn y gyllideb ddrafft mai un o'r dewisiadau anodd yr ydym wedi'i hwynebu wrth bennu ein cynlluniau gwario ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ein dull o ymdrin â thâl y sector cyhoeddus. Y gwir yw na chawsom unrhyw arian ychwanegol drwy fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau cyflog ar draws y sector cyhoeddus y flwyddyn nesaf, o ystyried penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi codiadau cyflog y sector cyhoeddus, ac eithrio'r GIG a gweithwyr ar y cyflogau isaf. Felly, bydd angen cynnwys goblygiadau dyfarniadau cyflog yn 2021-22 wrth gynllunio'ch cyllideb yng ngoleuni'r setliad hwn. Mae ein penderfyniadau yn y gyllideb yn targedu cymaint o gymorth ag y gallwn i iechyd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a llywodraeth leol i gynorthwyo â'r pwysau ar wasanaethau rheng flaen, gan ganolbwyntio ar ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Er na chawsom unrhyw arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer cyflogau'r sector cyhoeddus, wrth bennu dosbarthiad cyllid ar draws awdurdodau ar gyfer y Setliad, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ar gytundeb cyflog athrawon 2020/21 a'r ymrwymiad a wnaed gan lywodraeth leol i ariannu'r fargen hon drwy gyfeirio cyllid at ran ysgolion y fformiwla. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer ein cynigion ar gyfer meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim, o ystyried bod Llywodraeth y DU yn parhau i gyflwyno'r cynllun Credyd Cynhwysol.

Drwy'r Setliad hwn, rydym yn parhau i ddarparu £4.8 miliwn i awdurdodau allu darparu rhyddhad ardrethi ychwanegol yn ôl disgrisiwn i fusnesau lleol ac eraill sy'n talu ardrethi er mwyn ymateb i faterion lleol penodol.

Yn unol â phwyslais y Llywodraeth ar fynd i'r afael ag effeithiau tlodi, rydym yn parhau'n ymrwymedig i amddiffyn aelwydydd sy'n agored i niwed a'r rhai ar incwm isel rhag unrhyw ostyngiad yn y cymorth o dan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, er gwaethaf y diffyg yn y cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU ar ôl iddi ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor. Byddwn yn parhau i gynnal hawliau llawn o dan ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2021-22 ac unwaith eto rydym yn darparu £244 miliwn ar gyfer y Cynllun yn y Setliad i gydnabod hyn.

Ochr yn ochr â'r Setliad rydym yn parhau i ddarparu cyllid i gynorthwyo llywodraeth leol i hepgor ffioedd ar gyfer claddedigaethau plant. Mae'r ymrwymiad cyffredin hwn yn sicrhau dull teg a chyson ledled Cymru.

Nid yw'n fwriad gennyf ddarparu ar gyfer cyllid gwaelodol eleni o ystyried y setliad uwch ar gyfer 2020-21 a'r dyraniadau arfaethedig yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw ar gyfer 2021-22. Yn unol â hynny, rwyf wedi dyrannu'r holl arian sydd ar gael ymlaen llaw.

Mae ystod eang o wasanaethau wrth gwrs wedi'u heffeithio'n sylweddol gan y pandemig. Fel yr oedd datganiad y Gweinidog Cyllid ar y gyllideb yn ei egluro, rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddarparu cyllid i gefnogi eich ymateb chi ac eraill i'r pandemig. Caiff hyn ei ystyried ar wahân ac nid yw'n rhan o'r Setliad hwn.

Bydd cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2021-22 yn parhau i gael ei bennu ar £198 miliwn. Yn y swm hwn mae £20 miliwn ar gyfer parhau â'r grant adnewyddu priffyrdd cyhoeddus, gan gynnwys cymorth ar gyfer teithio llesol; £54 miliwn o grant cyfalaf cyffredinol sylfaenol hanesyddol; a pharhau â £35 miliwn ychwanegol o grant cyfalaf cyffredinol, a gyhoeddwyd fel rhan o gyllidebau 2019-20 a 2020-21. Bydd y £35 miliwn ychwanegol hwn yn eich galluogi i ddechrau ymateb i'n cyd-flaenoriaeth o ddatgarboneiddio gan gynnwys ar gyfer tai ac adferiad economaidd yn dilyn Covid-19.

Rydym wedi trafod o'r blaen ein cydnabyddiaeth gyffredin o'r angen i fuddsoddi yn y cyflenwad o dai. Dylai buddsoddi mewn tai cymdeithasol leihau'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol ac ar wasanaethau digartrefedd. Gall buddsoddi mewn tai hefyd gefnogi economi Cymru ac economïau lleol. Gobeithio y gall y Setliad hwn - cyfalaf a refeniw - eich helpu i gynyddu graddfa a chyflymder adeiladu tai ledled Cymru.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a thablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad fesul awdurdod unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau'r awdurdodau unigol o ran Cyllid Allanol Cyfun, sy'n

cynnwys y Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Fel yr ydym wedi trafod drwy'r Is-grŵp Cyllid, rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2021-22. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru ymhellach ar gyfer y Setliad terfynol.

Mae'r oedi cyn cyhoeddi'r Setliad wedi ein galluogi i ddefnyddio ffigurau'r sylfaen drethi diweddaraf ar gyfer 2021-22, sy'n golygu na ddylai fod newid rhwng setliadau dros dro a setliadau terfynol o ganlyniad i ddiweddariadau i'r sylfaen drethi.

Mae'r Setliad hwn yn rhoi sylfaen sefydlog ichi allu cynllunio eich cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Rwyf yn llwyr werthfawrogi'r pwysau y mae llywodraeth leol yn ei wynebu ac rwyf wedi ymrwmo i ddiogelu llywodraeth leol, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn. Mae hwn cystal Setliad ag y gallaf ei gynnig ac yn un a ddylai helpu i leddfu rhywfaint ar y pwysau yr oeddech wedi bod yn ei rag-weld. Er na allaf warantu na fydd unrhyw newidiadau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, oherwydd yr ansicrwydd ariannol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, gallaf eich sicrhau nad wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg na'r data sy'n sail i ddsbarthu'r Setliad hwn.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn lansio cyfnod o 7 wythnos o ymgynghori ffurfiol ar y Setliad ar gyfer 2021-22. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021** fan hwyraf. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Simon Edwards: LGFPSettlement@gov.wales.

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai'r Setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydym yn gwahodd sylwadau ynghylch a ellid llunio neu ddiwygio'r Setliad arfaethedig i gael effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) pob ymatebydd ynghyd â'r ymateb. Os nad ydych am gael eich adnabod fel awdur eich ymateb, sicrhewch eich bod yn nodi hyn yn glir yn eich ymateb.

Mae'n bosibl y rhoddir copïau o'r ymatebion yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os hoffech i'ch sylwadau barhau'n gyfrinachol, gwnewch hyn yn glir yn eich ateb. Caiff hyn ei ystyried yng ngoleuni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion a gafwyd erbyn y dyddiad cau cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud a'i gyhoeddi.

Atgoffir awdurdodau lleol o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo hynny'n berthnasol. Dylid asesu effeithiau opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hynny lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Mae angen i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2021-22.

Mae'r Setliad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio eich cyllidebau ar gyfer 2021-22 ac i ystyried y ffordd orau i chi ymgysylltu â'ch cymunedau lleol wrth lunio eich cynigion a gwneud penderfyniadau cyllidebol.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government